Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# Siarter Gorfodi Cynllunio

**Cymeradwywyd Gorffennaf 2008**

**Diwygiwyd Medi 2011**

**Diwygiwyd Ebrill 2017**

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio gweithdrefnau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer gorfodi cydymffurfio â rheolaethau cynllunio. Canllaw ydyw i'r rheini y mae achosion o dorri rheolaethau cynllunio a rheolaethau adeilad rhestredig yn effeithio arnynt, sydd efallai am wybod pa gamau y gall yr Awdurdod eu cymryd a'r amserlen dan sylw i gyflawni canlyniad.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaeth cynllunio effeithiol yn y Parc Cenedlaethol ac mae wedi sefydlu Tîm Gorfodi pwrpasol sy'n gyfrifol am ymchwilio i achosion o dorri rheolaeth gynllunio y caiff wybod amdanynt.

Fodd bynnag, gall fod yn llafurus ac yn gymhleth gorfodi pobl i gydymffurfio â rheolaethau cynllunio. Yn aml iawn, bydd yr Awdurdod yn ceisio cyd-drafod cydymffurfio yn hytrach na mynd ar drywydd camau ffurfiol. Serch hynny, yn yr achosion hynny lle mae difrod amgylcheddol difrifol neu niwed amlwg yn cael eu hachosi i amwynder lleol yr ardal, neu lle mae difrod yn cael ei achosi i dirweddau, coed ac adeiladau rhestredig a warchodir, bydd yr Awdurdod yn defnyddio holl ystod ei bwerau gorfodi i gael rheolaeth ar y mater yn gyflym.

Er ei bod yn dramgwydd troseddol gwneud gwaith anawdurdodedig i adeilad rhestredig neu goeden a warchodir, nid yw'n anghyfreithlon nac yn drosedd cyflawni datblygiad neu ddefnydd heb ganiatâd cynllunio priodol. Dim ond anawdurdodedig ydyw ac nid oes unrhyw dramgwydd troseddol wedi'i gyflawni. Dim ond pan fydd yr Awdurdod wedi cyflwyno hysbysiad gorfodi ffurfiol neu ei debyg, pan fydd pob dewis apelio wedi'i ddefnyddio a phob cyfnod ar gyfer cydymffurfio wedi dod i ben, y daw'r sawl sy'n gyfrifol am y defnydd neu'r datblygiad anawdurdodedig yn atebol i'w erlyn ac, os ceir hwnnw'n euog, caiff gofnod troseddol.

Mae gan y sawl y cyflwynir hysbysiad gorfodi yn ei erbyn hawliau apelio y mae'n rhaid eu parchu a gall hyn arwain at ychydig o oedi wrth geisio datrys y mater.

Ni all yr Awdurdod ddefnyddio ei bwerau gorfodi'n effeithiol heblaw bod digon o dystiolaeth ar gael i arddangos yn glir fod rheolaeth gynllunio a/neu reolaeth adeilad rhestredig wedi'i thorri.

**Beth yw torri Rheolaeth Gynllunio?**

Mae dwy brif ffordd y gellir torri rheolaeth gynllunio:

- Gwaith adeiladu neu weithrediadau peirianneg neu newidiadau defnydd tir neu adeiladau sy'n cael eu gwneud heb y caniatâd cynllunio angenrheidiol.

*Fodd bynnag, nid yw caniatâd cynllunio'n ofynnol ar gyfer pob gwaith adeiladu/peirianneg na phob newid defnydd. Ystyrir naill ai nad yw llawer ohonynt yn ddatblygiad o gwbl neu fe'u diffinnir fel 'datblygiad a ganiateir', gan olygu nad oes angen cais am ganiatâd cynllunio. Er enghraifft, efallai na fydd angen caniatâd cynllunio i godi estyniad bach ar dŷ neu sied ardd o fewn terfynau penodedig (a ddosbarthir yn 'ddatblygiad a ganiateir').*

- Lle mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ond nid yw'r cynlluniau cymeradwy a/neu'r amodau sydd ynghlwm wrth y gymeradwyaeth wedi'u dilyn yn iawn.

Er enghraifft, efallai bod adeilad yn fwy o faint nag a ddangosir ar y cynlluniau cymeradwy neu efallai bod amod sy'n nodi oriau gwaith busnes wedi'i dorri. I'w gynorthwyo i nodi achosion felly o dorri rheolaeth, mae'r Awdurdod yn cysylltu ag adrannau rheoli adeiladu ac iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol. Os credir bod rheolaeth wedi'i thorri, bydd ymweliad safle'n cael ei gynnal i sicrhau bod y datblygiad yn unol â'r cynlluniau cymeradwy.

## ***Polisïau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar Orfodi Cynllunio***

*Dylid darllen y siarter hon mewn cysylltiad â Pholisi Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn adran 3.6 o Bolisi Cynllunio Cymru a'r canllawiau polisi cenedlaethol yn Adran 14 ac Atodiad Adran 14 o'r Canllaw Rheoli Datblygiad a Chylchlythyr 24/97 (Gorfodi rheolaeth gynllunio: darpariaethau deddfwriaethol a gofynion gweithdrefnol), a fydd yn cael eu hymgorffori maes o law yn Atodiad Adran 14 'Offer Gorfodi'.*

## **Polisïau**

*Pwy sy'n gallu rhoi gwybod am achos o dorri rheolaeth gynllunio?*

Mae Gwasanaethau Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhoi mynediad cyfartal i aelodau'r cyhoedd ac nid ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn oedran, rhyw, hil nac anabledd.

**GORF 1 - Mae Gwasanaeth Gorfodi Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gael i bob rhan o'r gymuned, ni waeth beth yw oedran, rhyw, hil neu anabledd yr unigolyn.**

*Beth sy'n golygu Cwyn Gorfodi*

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gofyn y dylai pob cwyn mewn perthynas ag achosion posibl o dorri rheolaeth gynllunio gael ei chyflwyno ar ffurflen gwyno gan ddefnyddio'r system gwyno electronig ar wefan yr Awdurdod neu fel arall gael ei gwneud yn ysgrifenedig (darperir rhagor o wybodaeth ymhellach yn y ddogfen hon). Os rhoir gwybod am gŵyn dros y ffôn, bydd swyddogion yn llenwi ffurflen gwyno ar ran yr achwynydd ac yn anfon copi ato. Bydd y ffurflen gwyno'n nodi pa wybodaeth sy'n ofynnol gan yr achwynydd er mwyn ystyried a ydy'r gwyn yn gwarantu ymchwiliad. Bydd yr wybodaeth y mae gofyn ei rhoi gyda'r ffurflen gwyno neu ei llwytho i fyny gyda'r system gwyno electronig yn cynnwys enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt yr achwynydd yn y lle cyntaf. I reoli cwynion yn effeithiol, rhaid i'r ffurflen gwyno gynnwys cyfeiriad, cyfeirnod grid a/neu gynllun lleoliad safle a natur yr honiad o dorri rheolaeth gynllunio. Byddai ffotograffau a chofnodion dyddiadur yn ddefnyddiol hefyd pe byddent ar gael. Ni fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn prosesu cwynion dienw. Os na fydd digon o wybodaeth wedi'i darparu, ni fydd yr Awdurdod yn cofrestru cwyn nes ei fod yn fodlon fod y mater yn gwarantu ymchwiliad.

**GORF 2 - Dim ond cwynion a wnaed yn ysgrifenedig y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymchwilio iddynt a dim ond os yw'r achwynydd wedi darparu gwybodaeth ddigonol a/neu'r dystiolaeth ofynnol.**

*Sut bydd yr Awdurdod yn trin gwybodaeth sy'n cael ei chadw mewn perthynas ag achosion gorfodi*

Derbyniwn nad yw llawer o bobl yn hoffi gwneud cwynion ffurfiol i'r Awdurdod; fodd bynnag, mae Gorfodi Cynllunio yn wasanaeth sy'n cael ei yrru gan gwynion yn bennaf. Bydd eich manylion yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac ni fyddant ar gael i'r cyhoedd.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydnabod pwysigrwydd cyfrinachedd. Ni fydd gwybodaeth bersonol a ddarperir gan achwynwyr yn cael ei datgelu i unrhyw bartïon eraill heb awdurdod yr achwynydd.

**GORF 3 - Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a ddatgelir i Dîm Gorfodi Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei chadw'n gyfrinachol.**

*Sut bydd yr Awdurdod yn ystyried yr honiad o dorri rheolaeth gynllunio*

Pan gaiff yr Awdurdod gŵyn ddilys, bydd yr Awdurdod yn ystyried i ddechrau a ydy'r gŵyn yn golygu datblygiad anawdurdodedig y mae gofyn caniatâd cynllunio arno ('datblygiad' fel y'i diffinnir gan Adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990).

Os nodir nad 'datblygiad' mo'r gŵyn, bydd yr Awdurdod yn ysgrifennu at yr achwynydd i roi gwybod iddo am y penderfyniad.

Os nodir bod y datblygiad yn anawdurdodedig am nad yw'n cael ei gyflawni yn unol â chaniatâd cynllunio, bydd yr Awdurdod yn ystyried a ydy'r newidiadau'n dderbyniol mewn termau polisi. Wrth wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio, mae'r Awdurdod yn ystyried y datblygiad a gynigir mewn perthynas â pholisïau'r cynllun datblygu cyfredol ac yn ôl gofynion polisi cynllunio cenedlaethol. Mae polisïau'r cynllun datblygu yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio a dylent fod yr un mor berthnasol ar gyfer camau gorfodi. Nid oes unrhyw bolisïau penodol yng Nghynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2013) sy'n berthnasol i gamau gorfodi; mae felly'n briodol i'r polisi hwn gadarnhau pwysigrwydd y Cynllun Lleol.

**GORF 4 - Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn defnyddio pwerau gorfodi yn erbyn datblygiad anawdurdodedig, yn ôl y gofyn, er mwyn atgyfnerthu Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, ac i sicrhau bod y datblygiad anawdurdodedig yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol.**

*Sut mae'r Parc Cenedlaethol yn mynd ati i orfodi cynllunio*

Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn anelu i ddechrau at ddatrys achosion o dorri rheolaeth gynllunio drwy gyd-drafod â pherchennog neu ddeiliad y tir.

Nod y cyd-drafod fydd datrys yr achos o dorri rheolaeth gynllunio yn wirfoddol, gyda'r perchennog neu ddeiliad y tir yn cymryd camau, os oes rhai ar gael, i leihau unrhyw effeithiau andwyol ar amwynder cyhoeddus i lefel dderbyniol.

Fodd bynnag, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystyried y terfynau amser statudol ar gyfer cymryd camau gorfodi ac efallai bydd angen dechrau camau gorfodi ar unwaith i atal achos annerbyniol o dorri rheolaeth gynllunio rhag sefydlu ei hun ymhellach a bod yn anoddach ei ddatrys.

**GORF 5 - Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cyd-drafod â pherchenogion neu ddeiliaid y tir mewn ymdrech i ddatrys yr achos o dorri rheolaeth gynllunio. Dim ond mewn achosion lle mae cyd-drafodaethau wedi arwain at beidio â lleihau achosion o**

**dorri rheolaeth i lefelau derbyniol neu lle mae'n allweddol y daw'r achos o dorri rheolaeth i ben ar unwaith, y bydd yr Awdurdod yn ystyried cymryd camau gorfodi ffurfiol.**

*Lle mae datblygiad derbyniol, ond anawdurdodedig, wedi digwydd*

Yn ystod yr ymchwiliad gorfodi, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn asesu a yw'n debygol y byddai caniatâd cynllunio diamod yn cael ei roi ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi digwydd pe byddai cais ôl-weithredol yn cael ei gyflwyno.

Os ystyrir bod y datblygiad anawdurdodedig yn dderbyniol o ran polisi cenedlaethol a'r polisïau a nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, bydd y tîm gorfodi'n gwahodd y sawl sy'n gyfrifol am y datblygiad anawdurdodedig i gyflwyno cais ôl-weithredol am ganiatâd cynllunio.

Yn yr amgylchiadau hyn, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhoi gwybod i berchennog neu ddeiliad y tir, os bydd am gael gwared ar ei fudd yn y tir yn y dyfodol ac os na fydd ganddo dystiolaeth o roi unrhyw ganiatâd am ei ddatblygiad, y gallai hyn gael ei adlewyrchu yn y prisiad ac achosi ansicrwydd am yr hawliau sydd ganddo i'r tir.

**GORF 6 - Ni fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cyflwyno hysbysiadau gorfodi mewn achosion lle nad oes, yn ei farn ef, unrhyw wrthwynebiad cynllunio sylweddol er mwyn datrys absenoldeb caniatâd cynllunio dilys yn unswydd.**

*Lle gellid gwneud datblygiad anawdurdodedig yn dderbyniol drwy osod amodau*

Os bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystyried y gellid gwneud datblygiad anawdurdodedig yn dderbyniol drwy osod amodau cynllunio, bydd yr Awdurdod yn gwahodd perchennog neu ddeiliad y tir i gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio. Gallai hwn fod ar ffurf cyflwyno Hysbysiad Rhybudd Gorfodi dan Adran 173ZA o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ei gwneud yn glir i berchennog neu ddeiliad y tir nad yw'n dymuno i'r datblygiad ddod i ben, ond bod ganddo ddyletswydd gyhoeddus i ddiogelu amwynder drwy sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyflawni, neu ei barhau, o fewn terfynau derbyniol, gan ystyried amgylchiadau lleol a pholisïau cynllunio perthnasol.

Os bydd perchennog neu ddeiliad y tir, ar ôl cael gwahoddiad ffurfiol i wneud hynny, yn gwrthod cyflwyno cais cynllunio a fyddai'n galluogi Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ystyried rhoi caniatâd cynllunio amodol, yna bydd yr Awdurdod yn cyflwyno hysbysiad gorfodi os yw'r datblygiad anawdurdodedig, yn ei farn ef, wedi arwain at unrhyw niwed annerbyniol i amwynder cyhoeddus, neu ddifrod i safle a ddynodwyd yn statudol, nad ellir ei waredu na'i leddfu'n foddhaol heblaw drwy osod amodau ar roi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad.

**GORF 7 - Lle ystyrir bod datblygiad anawdurdodedig yn dderbyniol pe byddai amodau i reoli'r datblygiad mewn grym, yna bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gwahodd y perchennog/deiliad i gyflwyno cais cynllunio. Os na chyflwynir cais cynllunio wedyn, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystyried a yw'n fuddiol cymryd camau gorfodi pellach.**

*Lle mae datblygiad anawdurdodedig annerbyniol yn gwarantu gweithredu di-oed*

Os bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael cwyn bod datblygiad anawdurdodedig yn achosi niwed annerbyniol i amwynder cyhoeddus, ac nad yw'n debygol iawn o gwbl y bydd y mater yn cael ei ddatrys drwy gyd-drafod neu'n wirfoddol, bydd yr Awdurdod yn cymryd camau gorfodi egnïol i unioni'r achos o dorri rheolaeth ar unwaith, neu atal difrod difrifol pellach i amwynder cyhoeddus.

**GORF 8 - Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd camau gorfodi ffurfiol i ddatrys datblygiad anawdurdodedig, dim ond pan fydd yr Awdurdod yn ystyried**

**bod y datblygiad anawdurdodedig yn achosi niwed annerbyniol i amwynder cyhoeddus ac nid yw'n debygol iawn o gael ei ddatrys drwy gyd-drafod.**

*Datblygiad anawdurdoedig gan berchentywyr preifat*

Os yw'n ymddangos bod y deiliad tŷ wedi dibynnu ar hawliau datblygu a ganiateir i awdurdodi'r datblygiad, ond ei fod wedi mynd heibio cyfyngiad penodedig wrth ei gyflawni, wrth ystyried a yw'n fuddiol cymryd camau gorfodi, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystyried yn llawn beth fyddai wedi'i ganiatáu pe byddai'r datblygiad wedi'i gyflawni gan ddilyn y darpariaethau perthnasol i'r gair. Ni fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel arfer yn cymryd camau gorfodi er mwyn unioni dim ond mân amrywiad dros yr hyn a fyddai wedi'i ganiatáu yn rhinwedd darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd).

**GORF 9 - Ni fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd camau gorfodi heblaw bod datblygiad anawdurdodedig wedi mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn a fyddai wedi cael ei ganiatáu gan ddarpariaethau perthnasol Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd).**

*Datblygiad anawdurdodedig mewn perthynas ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.*

Mae datblygiad anawdurdodedig a gyflawnir heb y caniatâd adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth angenrheidiol, neu drwy fethu â chydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd felly, yn drosedd o dan Adran 9 a 59 o Ddeddf (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Yn yr achos hwn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystyried y dylid gorfodi yn erbyn unrhyw ddatblygiad anawdurdodedig yr ystyria ei fod yn cael effaith andwyol ddifrifol ar adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth. Bydd y Parc Cenedlaethol yn ymgynghori â Swyddog Cadwraeth Adeiladau'r Parc Cenedlaethol, ac os oes angen CADW, cyn cymryd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol.

**GORF 10 – Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd camau gorfodi yn erbyn datblygiadau anawdurdodedig neu achosion o dorri amodau lle ystyrir bod hynny'n cael effaith andwyol ddifrifol ar adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth.**

*Rheolaeth dros weithio mwynau*

Mae rheolaethau cynllunio mwynau wedi'u hen sefydlu yn rhan o'r system gynllunio gyffredinol ac nid oes unrhyw bwerau gorfodi ar wahân ar gyfer gwaith mwynau anawdurdodedig. Mae'r polisïau a'r egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i orfodi yr un mor berthnasol i achosion mwynau.

Mae gweithio mwynau anawdurdodedig weithiau'n achosi problemau gorfodi penodol, a hynny o ran natur anwelladwy'r gwaith weithiau ac o ran cyflymder achosi'r difrod yn ogystal â'r ffaith ei bod yn ddigon posibl nad oes unrhyw drefniadau ar gyfer adfer y tir ac ôl-ofal y tir neu hyd yn oed defnydd wedyn wedi'i gytuno.

Er bod y pwerau sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol yn ddefnyddiol i atal difrod a fyddai fel arall bron neu'n gwbl anwelladwy, naill ai i'r safle ei hun neu i'r ardal o'i gwmpas, mae'n amlwg yn well cael cyswllt a chysylltiadau effeithiol rhwng awdurdodau cynllunio lleol a gweithredwyr mwynau, a fyddai'n osgoi torri amodau neu reolaethau cynllunio sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio ac yn golygu bod modd datrys unrhyw broblemau drwy drafod a chydweithredu.

**GORF 11 – Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd camau gorfodi ffurfiol yn erbyn gweithio mwynau anawdurdodedig ac achosion o dorri amodau mewn perthynas â chaniatâd cynllunio cysylltiedig â mwynau, a hynny yn ôl yr angen er mwyn diogelu amwynder cyhoeddus a/neu lle mae nodweddion arbennig y parc dan fygythiad.**

*Rheolaeth dros waredu gwastraff*

Mae safleoedd tirlenwi a gwaredu gwastraff anawdurdodedig weithiau'n achosi problemau gorfodi penodol, a hynny o ran natur anwelladwy'r gwaith weithiau a chyflymder achosi'r difrod yn ogystal â'r ffaith ei bod yn ddigon posibl nad oes unrhyw drefniadau ar gyfer adfer ac ôl-ofal y tir neu hyd yn oed defnydd wedyn wedi'i gytuno.

Er bod y pwerau sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol yn ddefnyddiol i atal difrod a fyddai fel arall yn gwbl neu bron yn anwelladwy, naill ai i'r safle ei hun neu i'r ardal o'i gwmpas, mae'n amlwg yn well cael cyswllt a chysylltiadau effeithiol rhwng awdurdodau cynllunio lleol a gweithredwyr gwastraff, a fyddai'n osgoi torri amodau neu reolaethau cynllunio sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio ac yn golygu bod modd datrys unrhyw broblemau drwy drafod a chydweithredu.

**GORF 12 - Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd camau gorfodi ffurfiol yn erbyn gwaredu gwastraff anawdurdodedig ac achosion o dorri amodau mewn perthynas â safleoedd gwaredu gwastraff awdurdodedig, lle bydd yn ystyried bod angen gwneud hynny er mwyn diogelu amwynder cyhoeddus a/neu lle mae nodweddion arbennig y parc dan fygythiad.**

*Tipio a Thir sy'n effeithio'n andwyol ar amwynder cymdogaeth*

Mae gadael sbwriel neu ddeunydd gwastraff ar dir yn ddatblygiad drwy reswm newid defnydd sylweddol oherwydd cyfeiriad penodol yn Adran 55(3)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae tirwedd wledig ac arunig y Parc Cenedlaethol yn gyfle i dipio ddigwydd yn gyfrinachgar y tu hwnt i olwg y cyhoedd. Mae'n aml yn anodd iawn adnabod yr unigolyn sydd wedi tipio; fodd bynnag, lle bydd yn bosibl bydd yr Awdurdod yn adnabod perchennog y tir lle mae'r tipio wedi digwydd ac yn ceisio datrys y mater drwy gyd-drafod. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yr Awdurdod yn cymryd camau gorfodi ffurfiol i ddatrys newid defnydd sylweddol anawdurdodedig y tir. Bydd y penderfyniad i gymryd camau gorfodi yn dilyn cysylltiad â'r Awdurdod Unedol Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu'r Heddlu a allai fod â phwerau mwy effeithiol i ymdrin â'r mater.

Mewn achosion lle mae cwynion yn berthnasol i dir sy'n effeithio'n andwyol ar amwynder cymdogaeth, mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog bwerau o dan Adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i sicrhau bod y tir yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Gall y pŵer hwn fod yn berthnasol hefyd i gyflwr gerddi preifat sy'n effeithio'n andwyol ar amwynder cymdogaeth. Fodd bynnag, bydd pob cwyn yn destun ymchwiliad a dim ond pan fydd cyd-drafodaethau wedi methu y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystyried cymryd camau ffurfiol o dan Adran 215.

**GORF 13 – Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd camau ffurfiol yn erbyn tipio anawdurdodedig a thir sy'n effeithio'n andwyol ar amwynder cymdogaeth, lle mae'n ystyried ei bod yn fuddiol gwneud hynny.**

*Gorfodi Coed*

Mae coed yn chwarae rhan unigryw mewn gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd trefol a gwledig drwy gynnig buddion esthetig, amgylcheddol ac amwynder. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cydnabod hyn ac yn ceisio, os yw'n briodol, gwarchod ei goed â gorchmynion diogelu coed. Gellir gosod y gorchmynion hyn ar goed unigol, grwpiau o goed neu goed a nodwyd ar ardal o dir.

Os oes caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer datblygiad lle mae coeden a ddiogelir am gael ei gwaredu, yna mae'r caniatâd cynllunio yn rhoi caniatâd i waredu'r goeden, ac nid oes angen i unrhyw ganiatâd pellach gael ei roi gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Os oes gwaith anawdurdodedig wedi'i wneud i goeden a warchodir gan orchymyn diogelu coed, bydd y Parc Cenedlaethol yn cymryd camau gorfodi ffurfiol, os ystyrir ei bod yn fuddiol gwneud hynny.

**GORF 14 - Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd camau gorfodi yn erbyn achosion o dorri rheolaeth gynllunio sy'n berthnasol i goed a warchodir, a hynny pan fydd yr Awdurdod yn ystyried ei bod yn fuddiol gwneud hynny.**

*Hysbysebion Anawdurdodedig*

Hysbyseb yw poster, hysbyslen, arwydd ffasgia, arwydd ymestynnol, arwydd polyn, arwydd canopi, model a dyfais, blaenarwydd ac arwydd gyfeiriadol, byrddau gwerthwyr tai ac eiddo, hysbysebion balŵn caeth (nid balwnau yn hedfan), hysbysebion baner, arddangosiadau pris, arwyddion traffig ac arwyddion enwau lleoedd. Nid hysbysebion mo cofebion na signalau rheilffordd.

Mae'r amodau safonol yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 yn gofyn bod pob hysbyseb yn cael ei chadw'n lân ac yn daclus ac mewn cyflwr diogel. Rhaid iddynt gael caniatâd perchennog y safle sy'n cynnwys yr Awdurdod Priffyrdd os yw ar dir priffyrdd. Ni chânt guddio arwyddion ffordd, rheilffordd, dyfrffordd nac awyrennau ac ni chânt fod mor barhaol nad oes modd eu gwaredu os yw'n ofynnol.

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dirwedd a warchodir; gall y dirwedd hon a warchodir gael ei niweidio os codir arwyddion a hysbysebion anawdurdodedig. Cymerir camau gorfodi i fynd ar drywydd arwyddion sy'n gofyn caniatâd hysbyseb sy'n cael eu harddangos heb fudd caniatâd hysbyseb ac sy'n cael eu hystyried yn niwed naill ai i amwynder gweledol ardal neu i ddiogelwch defnyddwyr priffordd.

**GORF 15 – Lle caiff arwyddion neu hysbysebion anawdurdodedig eu codi neu eu harddangos gan achosi niwed annerbyniol i amwynder gweledol neu ddiogelwch priffyrdd, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd camau gorfodi ffurfiol i sicrhau bod yr hysbyseb anawdurdodedig yn cael ei gwaredu.**

*Lle na fydd camau gorfodi'n cael eu hystyried*

Mae rhai cwynion a cheisiadau am gamau gorfodi a gaiff Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn faleisus neu maent o ganlyniad i wrthdaro rhwng cymdogion neu dirfeddianwyr.
Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn sgrinio cwynion dienw, cwynion sydd o bosibl yn anghydfodau preifat a materion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio. Yn yr un modd, os cysylltwyd ag asiantaethau rheoleiddio eraill a bod ganddynt hwy fwy o rym i reoli sefyllfa, ni fydd yr Awdurdod yn dyblygu camau gorfodi felly.

**GORF 16 – Efallai bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystyried peidio â chymryd camau gorfodi os yw cwyn:**

- **Yn ddienw**
- **O natur faleisus**
- **Yn anghydfod rhwng cymdogion**
- **Yn fater sifil**
- **Yn fater nad yw'n ymwneud â chynllunio**
- **Yn cael ei orfodi gan asiantaeth fwy grymus a bod y gŵyn wedi'i dyblygu**

Fodd bynnag, o ran cwynion sy'n berthnasol i asedau anamnewidiadwy, efallai yr ymchwilir i gwynion dienw.

*Gorfodi ac asiantaethau a chyrff llywodraeth eraill*

Mae'n aml yn hanfodol cysylltu ag awdurdodau lleol, adrannau ac asiantaethau allanol eraill, er enghraifft Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Iechyd yr Amgylchedd lleol, Awdurdodau Priffyrdd lleol, wrth ymchwilio i achosion o dorri rheolaeth gynllunio. Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystyried cysylltu â thrydydd parti yn rhan annatod o'r ymchwiliad gorfodi cynllunio os ystyrir bod hynny'n briodol.

**GORF 17 – Bydd swyddogaeth gorfodi cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei hintegreiddio â swyddogaethau rheoleiddio adrannau Awdurdod Lleol eraill neu asiantaethau allanol os ystyrir bod hynny'n briodol.**

*Gorfodi cynllunio rhagweithiol*

Cred Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog "gwell atal na gwella" ac fel y cyfryw bydd yn mynd ati i hysbysu aelodau'r cyhoedd a Chynghorau Cymuned lleol am y gwahanol fathau o dorri rheolaeth gynllunio, beth i'w wneud os nodir achos o dorri rheolaeth, sut mae rhoi gwybod am achos posibl o dorri rheolaeth gynllunio a sut mae Gorchymyn Cynllun Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn effeithio ar orfodi cynllunio. Darperir hyn yng nghyhoeddiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog "Canllaw i Orfodi Cynllunio". Efallai hefyd y bydd Swyddogion Gorfodi'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gael i fynychu Cyfarfodydd Cyngor Cymuned i roi gwybodaeth bellach os bydd adnoddau'n caniatáu.

Efallai hefyd y bydd Swyddogion Gorfodi'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cymryd camau gorfodi cynllunio rhagweithiol fel y bydd adnoddau'n caniatáu er mwyn sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau cynllunio.

**GORF 18 - Bydd camau gorfodi rhagweithiol o ran achosion rheolaidd o dorri rheolaeth gynllunio, neu achosion felly a ragwelir, yn cael eu cymryd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel y bydd adnoddau'n caniatáu.**

*Perthi*

Gall perthi, fel coed, wneud cyfraniad pwysig at gymeriad ardal a gallant fod yn hanesyddol (ac weithiau'n archeolegol) bwysig o ran nodi defnydd tir a pherchenogaeth flaenorol. Cyfrannant hefyd yn sylweddol at fioamrywiaeth. Mae Rheoliadau Perthi 1997 yn berthnasol i bob perth sydd:

> yn fwy nag 20 metr o hyd neu sy'n ymuno â pherthi eraill ar yr amod eu bod yn ffinio tir amaethyddol, coedwigaeth, padog, tir comin, lleiniau pentref, safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig neu warchodfa natur leol.

Nid yw'r rheoliadau'n berthnasol i berthi sydd o fewn ffin cwrtil anedd-dŷ neu'n ei marcio.

Rhaid i unrhyw dirfeddiannwr sydd am waredu perth nad yw'n eithriedig gyflwyno Hysbysiad Gwaredu Perth yn ysgrifenedig i'r Awdurdod er mwyn i'r gwaredu gael ei ystyried dan y Rheoliadau.
Mae gwaredu perth gymwys heb roi gwybod i'r Awdurdod yn unol â'r Rheoliadau yn anawdurdodedig. O dan Reoliad 7 o'r Rheoliadau uchod, mae unigolyn sy'n fwriadol neu'n ddi-hid yn gwaredu perth, neu'n achosi neu'n caniatáu i unigolyn arall waredu perth, yn groes i reoliad 5(1) neu (9) yn euog o drosedd. Bydd yr Awdurdod yn ystyried a yw'n fuddiol cymryd camau ac os yw'n fuddiol bydd naill ai'n erlyn neu'n cyflwyno hysbysiad ailblannu perth. Bydd y ffactorau a ystyrir wrth benderfynu'r buddioldeb ac yna pa gamau gorfodi i'w cymryd yn cynnwys:

> y raddfa a'r rhesymau dros waredu'r berth; pwysigrwydd hanesyddol ac archeolegol y berth; effaith gwaredu'r berth ar fioamrywiaeth a'r dirwedd ac a oes unrhyw fuddiannau cyhoeddus trechaf a wasanaethir orau drwy waredu'r berth (fel diogelwch cyhoeddus).

Nid yw'r Awdurdod yn ymchwilio i gwynion am berthi uchel.

**GORF 19 – Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cymryd camau gorfodi yn erbyn achosion o dorri Rheoliadau Perthi 1997 os bydd yr Awdurdod yn ystyried ei bod yn fuddiol gwneud hynny.**

## Sut ydyn ni'n cymryd camau ffurfiol?

Bydd camau ffurfiol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael eu cymryd yn unol â'r weithdrefn ganlynol:-

- Bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod i'r troseddwr fod camau gorfodi dan ystyriaeth – mae hyn yn rhoi cyfle pellach i gyd-drafod ardrefniant.
- Mae rhai camau'n cael eu cymryd dan bwerau dirprwyedig a roir i'r Cyfarwyddwr Cynllunio, ond efallai bydd angen penderfyniad gan Aelodau o'r Awdurdod ar gamau eraill, am amryw resymau.
- Yna bydd yr Awdurdod yn dechrau paratoi'r Hysbysiadau ffurfiol neu achos cyfreithiol os oes angen.
- Cyflwyno'r Hysbysiadau i bob buddgyfranogwr perthnasol yn y safle, fel y'i diffinnir dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- Bydd yr Hysbysiad yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd i unioni'r sefyllfa cyn pen amserlen briodol.
- Yn achos gwaith anawdurdodedig mewn perthynas â hysbysebion, adeiladau rhestredig a/neu i goed gwarchodedig, mae gan yr Awdurdod bwerau i symud ymlaen i ddechrau achos erlyn (am fod materion felly'n droseddau dan y gyfraith).

## Beth sy'n digwydd ar ôl i hysbysiadau gael eu cyflwyno?

Bydd y sawl sy'n cael Hysbysiad naill ai:

- yn cydymffurfio â'r Hysbysiad (ac os felly bydd y mater wedi'i gau);

neu

- yn herio'r Hysbysiad drwy fodd apêl i Arolygiaeth Gynllunio Cymru neu ei herio mewn Llys Barn, lle mae hyn yn briodol.

Bydd gwrando achos ar apêl yn cymryd amser ac yn aml gall oedi pethau yn enwedig os oes rhaid trefnu ymchwiliad cyhoeddus.

Os na fydd yr apêl yn erbyn yr Hysbysiad yn llwyddo, daw'r Hysbysiad ffurfiol i rym, ond gellir herio camau'r Awdurdod ymhellach. Os yw'r apêl yn llwyddiannus a/neu os rhoir caniatâd cynllunio, dyma ddiwedd y mater fel arfer.

Os caiff yr Hysbysiad ei gadarnhau neu os nad oes apêl ond ni chydymffurfir ag ef o hyd, caiff yr Awdurdod yna ystyried erlyn y troseddwr yn y llys troseddol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i roi gwybod i achwynwyr am gynnydd mewn cyfnodau allweddol yn ystod yr achosion hyn, er enghraifft, pan geir apêl neu pan fydd achos am gael ei wrando yn y Llys Ynadon lleol.

## Y Pwerau Gorfodi

Rhestrir isod ddisgrifiad byr o'r amryw bwerau gorfodi sydd ar gael i'r Awdurdod. Ni fwriedir i hwn nodi'n llawn yr holl ystyriaethau cyfreithiol manwl, ond yn syml ceisio egluro natur gyffredinol y pwerau gorfodi sydd ar gael. Ym mhob achos, bydd yr Awdurdod yn ceisio defnyddio'r pŵer mwyaf effeithiol sydd ar gael i unioni achos o dorri rheolaeth gynllunio.

*Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio*

Mae'r Hysbysiad hwn yn galluogi'r Awdurdod i fynnu gwybodaeth fanwl am achosion dan amheuaeth o dorri rheolaeth gynllunio.

Efallai bydd Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio yn mynnu bod y sawl y'i cyflwynir iddo yn rhoi gwybodaeth fel:

- manylion yr holl weithrediadau sy'n cael eu cynnal ar y tir y gellid amau eu bod yn torri rheolaeth gynllunio;
- materion sy'n gysylltiedig â'r amodau neu gyfyngiadau sy'n amodau i unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd;
- enwau a chyfeiriadau unrhyw unigolyn y gwyddys ei fod yn defnyddio'r tir at unrhyw ddiben; a
- natur unrhyw fudd cyfreithiol yn y tir ac enwau a chyfeiriadau unrhyw unigolyn eraill y gwyddys bod ganddo fudd.

Nid yw cyflwyno Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio yn atal yr Awdurdod rhag cymryd camau ffurfiol eraill yn erbyn achos o dorri rheolaeth gynllunio. Mae gan y sawl sy'n cael Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio 21 diwrnod i ymateb iddo, ond os nad oes unrhyw ymateb mae trosedd gyfreithiol wedi'i chyflawni a gall honno fod yn destun erlyniad gan yr Awdurdod mewn Llys Barn.

Gall y gosb am beidio â chydymffurfio â Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio arwain at hyd at £1,000 o ddirwy. Yn yr un modd, os oes unrhyw un yn gwneud datganiad ffug neu gamarweiniol bydd yn euog o drosedd ar gollfarn (cosb fwyaf £5,000).

Ni ellir cyflwyno Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio o ran unrhyw achos dan amheuaeth o dorri rheolaeth adeilad rhestredig.

Offer sy'n debyg i'r Hysbysiad Tramgwyddo Cynllunio yw Archebion Gwybodaeth dan Adran 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

*Hysbysiad Rhybuddio Gorfodi*

Os yw'r Awdurdod yn ystyried, yn amodol ar osod amodau, fod gobaith rhesymol y byddai caniatâd cynllunio'n cael ei roi pe byddai cais am ganiatâd cynllunio'n cael ei wneud ynghylch y datblygiad anawdurdodedig, gellir rhoi Hysbysiad Rhybuddio Gorfodi, sy'n rhoi cyfnod penodedig y mae'n rhaid gwneud y cais o'i fewn. Bydd rhoi Hysbysiad Rhybuddio Gorfodi yn 'stopio'r cloc' o ran y datblygiad anawdurdodedig yn cael imiwnedd rhag camau gorfodi.

*Hysbysiad Gorfodi*

Hwn yw'r prif fath o Hysbysiad a ddefnyddir i ymdrin â datblygiad anawdurdodedig. Fel ym mhob math arall o weithred, mae'n amodol ar yr Awdurdod a'i gynghorwyr cyfreithiol yn bodloni eu hunain fod rheolaeth gynllunio wedi'i thorri.

Uwchlaw popeth, rhaid i'r Awdurdod fodloni'i hun ei bod yn fuddiol cyflwyno Hysbysiad Gorfodi sy'n ystyried y cynllun datblygu ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Rhaid i Hysbysiad felly nodi'r amser y daw i rym, pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd i unioni'r achos o dorri rheolaeth, ac ym mha gyfnod y mae'n rhaid cymryd y camau hynny.

Rhaid i apêl yn erbyn Hysbysiad Gorfodi gael ei gwneud cyn y dyddiad y daw'r Hysbysiad i rym (fel arfer cyn pen 28 diwrnod o'i gyflwyno). Os gwneir apêl, caiff gofynion yr Hysbysiad eu gohirio nes penderfynu'r apêl.

Mae peidio â chydymffurfio â gofynion Hysbysiad Gorfodi yn dramgwydd troseddol a gall yr Awdurdod ddechrau achos erlyn yn ei erbyn. Y ddirwy fwyaf yn y Llys Ynadon yw £20,000 ac mae'n ddi-ben-draw yn Llys y Goron. Gall yr Awdurdod hefyd ymweld â'r safle a gwneud y gwaith sy'n ofynnol gan yr Hysbysiad heb dalu ac yna ceisio adennill ei gostau gan y perchennog/deiliad.

*Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig*

Mae hwn yn debyg i Hysbysiad Gorfodi. Caiff yr Hysbysiad (a) fynnu bod yr adeilad yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr blaenorol; neu (b) os nad yw hynny'n rhesymol o ymarferol neu ddymunol, mynnu bod gwaith arall a nodir yn yr Hysbysiad yn cael ei wneud i leddfu effeithiau'r gwaith anawdurdodedig; neu (c) mynnu bod yr adeilad yn cael ei ddychwelyd i'r cyflwr y buasai ynddo pe byddai telerau unrhyw ganiatâd adeilad rhestredig wedi'u dilyn. Rhaid i'r Hysbysiad nodi cyfyngiadau amser ar gyfer sicrhau cydymffurfio â gofynion yr Hysbysiad.

Mae hawl apelio yn erbyn Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig. Mae'r gweithdrefnau'n debyg i'r rheini am apêl yn erbyn Hysbysiad Gorfodi.

Os yw gwaith sy'n destun Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig yn cael ei awdurdodi wedyn gan gais ôl-weithredol am ganiatâd Adeilad Rhestredig, bydd yr Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig yn peidio â chael unrhyw effaith ond bydd yr atebolrwydd am erlyniad am drosedd a gyflawnwyd cyn dyddiad unrhyw ganiatâd ôl-weithredol yn parhau.

*<u>Hysbysiad Torri Amodau</u>*
Os methwyd â chydymffurfio ag unrhyw amodau a osodwyd ar roi caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig, gall yr Awdurdod gyflwyno Hysbysiad Torri Amod i fynnu bod y sawl sy'n ei gael yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amod neu amodau.

Bydd yr Hysbysiad Torri Amod yn nodi pa gamau y dylid eu cymryd, ym marn yr Awdurdod, neu'r gweithgareddau yr ystyria'r Awdurdod y dylent ddod i ben, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r amod neu amodau a nodir yn yr Hysbysiad.

Nid oes unrhyw hawl apelio yn erbyn Hysbysiad Torri Amod ond gellir herio penderfyniad yr Awdurdod i gyflwyno Hysbysiad Torri Amod yn y Llys.
Os nad yw gofynion yr Hysbysiad wedi'u bodloni cyn pen y cyfnod penodedig, mae'r sawl sy'n gyfrifol yn torri'r Hysbysiad a bydd yn euog o drosedd ar gollfarn (cosb fwyaf £1000), os bydd yr Awdurdod yn penderfynu erlyn y mater.

*<u>Gwaharddebau</u>*
Os yw'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n fuddiol atal unrhyw achos gwirioneddol neu ddisgwyliedig o dorri rheolaeth gynllunio neu reolaeth adeilad rhestredig, gall ymgeisio i'r Llys am waharddeb. Ni fyddai camau felly'n cael eu cymryd fel arfer heblaw bod yr achos o dorri rheolaeth yn arbennig o ddifrifol neu faith a'i fod yn achosi, neu'n debygol o achosi, niwed eithriadol i'r amgylchedd lleol. Gall methu â chydymffurfio â gwaharddeb arwain at garchariad.

*<u>Hysbysiad Atal</u>*
Gall yr Awdurdod gyflwyno Hysbysiad Atal ar yr un pryd â Hysbysiad Gorfodi os yw'n ystyried ei bod yn fuddiol gweithredu ar frys, er mwyn dod â gweithgaredd tramgwyddus iawn i ben yn gynt na Hysbysiad Gorfodi.

Mae arfer y pŵer i gyflwyno Hysbysiad Atal yn ddewisol, ac ni fydd y ffaith ei bod yn fuddiol rhoi Hysbysiad Gorfodi yn golygu'n awtomatig y bydd yn fuddiol cyflwyno Hysbysiad Atal. Os cyflwynir Hysbysiad Atal bydd yn cael effaith naill ai ar unwaith neu ymhen ychydig ddiwrnodau a hyd yn oed os gwneir apêl yn erbyn yr Hysbysiad Gorfodi perthnasol, rhaid cydymffurfio â'r Hysbysiad Atal neu fel arall gall yr Awdurdod erlyn y troseddwr.

Am fod torri rheolaeth adeilad rhestredig ynddo'i hun yn dramgwydd troseddol, nid oes unrhyw angen na darpariaeth ar gyfer cyflwyno Hysbysiad Atal o ran achos o dorri rheolaeth adeilad rhestredig.

*<u>Hysbysiad Atal Dros Dro</u>*
Os yw'n fuddiol y dylid rhoi stop ar unwaith ar ddatblygiad anawdurdodedig, ond eto bod angen amser ar yr Awdurdod i drefnu ymateb gorfodi effeithiol, gall hysbysiad atal dros dro fynnu bod gweithgaredd sy'n torri rheolaeth gynllunio yn dod i ben ar unwaith.

*<u>Hysbysiad Adran 215</u>*
Gall yr Awdurdod gyflwyno Hysbysiad Adran 215 i berchennog/deiliad unrhyw dir neu adeilad yr ystyrir ei fod mewn cyflwr anniben i'r graddau y mae'n cael effaith andwyol ar amwynder cymdogaeth. Mae'r Hysbysiad yn mynnu bod y sawl y cyflwynir yr Hysbysiad iddo/iddi yn tacluso'r safle ac os na wneir hyn gall yr Awdurdod ddechrau achos cyfreithiol.

*<u>Hysbysebion</u>*

Ni chaiff rhai hysbysebion eu harddangos heb i'r Awdurdod eu cymeradwyo ymlaen llaw. Mewn achosion felly, gall yr Awdurdod erlyn pobl sy'n gyfrifol am arddangos hysbyseb anghyfreithlon neu roi Hysbysiad Dirwyn i Ben (mewn achosion lle nad oes angen caniatâd penodol ar hysbyseb ond lle mae'n achosi "niwed sylweddol" i amwynder yr ardal neu berygl i aelodau'r cyhoedd)).

Perthi

Gall yr Awdurdod gyflwyno Hysbysiad Ailblannu Perthi sy'n mynnu bod perth yn cael ei hailblannu sydd wedi'i gwaredu heb gydymffurfio â Rheoliadau Perthi 1997.

*Erlyn*

Mewn achosion lle mae tramgwydd troseddol wedi'i gyflawni (diffyg cydymffurfio â'r hysbysiadau uchod; gwaith anawdurdodedig i adeiladau rhestredig; gwaredu perthi'n anawdurdodedig; gwaith anawdurdodedig i goed; arddangos hysbysebion yn anawdurdodedig), bydd erlyn yn cael ei ystyried.

## Pam mae camau gorfodi'n gallu cymryd cyhyd?

Mae llawer o'r rhesymau wedi'u hegluro uchod ond mae'n aml yn rhwystredig i achwynwyr fod y gweithgarwch sy'n peri gofid yn dal i ddigwydd, er eu bod wedi cysylltu â'r Awdurdod. Mae rhai o'r ffactorau sy'n gallu arwain at gynnydd sy'n ymddangos yn araf yn cynnwys:

- casglu tystiolaeth gadarn foddhaol;
- parhau i gyd-drafod i geisio datrys y mater gyda'r troseddwr heb fynd ar drywydd camau ffurfiol;
- ystyried cais sy'n ceisio unioni'r mater; a
- disgwyl penderfyniad apêl yn erbyn Hysbysiadau ffurfiol.

Yn unol â thargedau Fframwaith Perfformiad Cynllunio Llywodraeth Cymru, bydd yr Awdurdod yn anelu at gwblhau ymchwiliad ynghylch honiad o dorri rheolaeth gynllunio ymhen 84 diwrnod. Mae 'ymchwiliad cyflawn' yn golygu bod yr Awdurdod wedi ymchwilio i'r honiad o dorri rheolaeth a chynghori'r achwynydd am un o'r canlyniadau canlynol:- nad oes unrhyw achos o dorri rheolaeth gynllunio wedi digwydd; bod achos o dorri rheolaeth wedi digwydd ond nid yw'n fuddiol mynd ar drywydd y mater neu fod achos o dorri rheolaeth wedi digwydd a bydd angen mynd ar drywydd camau gorfodi.

Bydd yr Awdurdod yn anelu at 'ddatrys' achos gorfodi cyn pen 180 diwrnod. Y datrys neu'r penderfyniad yw cau'r achos o ganlyniad i'r achos o dorri rheolaeth yn dod i ben mewn nifer o ffyrdd. Naill ai bod: caniatâd cynllunio wedi'i roi drwy gais cynllunio neu apêl gorfodi; cydymffurfiwyd â hysbysiad torri amod neu orfodi; mae'r datblygwr wedi peidio â thorri'r amod neu mae gweithredu uniongyrchol gan yr Awdurdod yn gwaredu'r achos o dorri rheolaeth.

Mae'r amserlen ar gyfer 'penderfyniad' yn aml yn dibynnu ar ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod, fel yr amser a gymerir i benderfynu apêl a chyfnodau cydymffurfio dilynol.
Nid yw dangosyddion Llywodraeth Cymru ar gyfer gorfodi wedi'u meincnodi.

## Sut mae rhoi gwybod am dorri rheolaeth gynllunio

Dylid rhoi gwybod am bob achos dan amheuaeth o dorri rheolaeth gynllunio a rheolaeth adeilad rhestredig i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan ddefnyddio'r system gwyno electronig ar Wefan yr Awdurdod (www.breconbeacons.org) gan gynnwys tystiolaeth ategol (h.y. ffotograffau, cynllun lleoliad, cofnodion dyddiadur etc.). Os nad yw'n bosibl llenwi'r ffurflen ar-lein, bydd yr Awdurdod yn derbyn cwynion a wneir yn ysgrifenedig drwy e-bost neu drwy'r post. Os nad yw'r rhyngrwyd ar gael ichi, gallwch ffonio a gofyn am ffurflen gwyno gorfodi drwy ffonio Desg Gymorth y Gwasanaethau Cynllunio ar **01874 620431** lle bydd ffurflen yn cael ei hanfon atoch. Mewn amgylchiadau eithriadol bydd yr Awdurdod yn derbyn cwynion a wnaed dros y ffôn lle bydd ffurflen gwyno'n cael ei llenwi gan swyddog ar eich rhan a bydd copi o'r ffurflen yn cael ei anfon atoch. Dibynnwn ar gymorth y cyhoedd i dynnu ein sylw at achosion felly o dorri rheolaeth.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Pan gaiff gŵyn gyda thystiolaeth ategol, bydd yr Awdurdod:

- Yn cydnabod cwynion cyn pen 5 diwrnod gwaith o'u cael.
- Yn asesu a ydy'r gŵyn a'r dystiolaeth ategol yn golygu datblygiad anawdurdodedig (a ddiffinnir o dan Adran 55 o'r Ddeddf) i warantu ymchwiliad.
- Os nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r gŵyn, bydd yr achwynydd yn cael gwybod na fydd y mater yn cael ei gofrestru nes bod yr wybodaeth angenrheidiol wedi'i darparu.
- Ar ôl cael dogfennaeth ddigonol, caiff y mater ei gofrestru a'i gategoreiddio yn unol â system flaenoriaethu.
- Bydd achwynwyr yn cael gwybod am gyfeirnod yr achos ac enw'r Swyddog y neilltuwyd yr achos iddo.
- Ymchwilio i fanylion y gŵyn.

- Canfod a oes rheolaeth gynllunio wedi'i thorri neu reolaeth adeilad rhestredig wedi'i thorri.
- Ceisio cyd-drafod ateb gyda'r "troseddwr" os gellir atal y datblygiad/defnydd neu os oes posibilrwydd y gellir rhoi caniatâd cynllunio.
- Os nad oes achos o dorri rheolaeth yn cael ei ganfod, bydd yr achwynydd yn cael gwybod nad oes unrhyw gamau'n cael eu cynnig.
- Os oes achos o dorri rheolaeth wedi digwydd, bydd yr Awdurdod yn casglu digon o dystiolaeth gadarn fel sydd ei hangen i fodloni bod camau ffurfiol wedi'u cyfiawnhau.
- Ystyried buddioldeb cymryd camau gorfodi ffurfiol sy'n ystyried y cynllun datblygu a phob ystyriaeth berthnasol arall. Os ystyrir bod camau ffurfiol yn ofynnol, bydd yr achwynydd yn cael gwybod yn y man hwn.
- Mewn rhai achosion efallai bydd gofyn ichi gynorthwyo'r Cyngor drwy ddarparu tystiolaeth mewn apêl neu yn y Llys. Cyn i hyn ddigwydd bydd y Swyddog Achos yn gofyn am eich caniatâd. Os nad ydych yn fodlon rhoi'ch caniatâd, mae'n bosibl na fydd yr Awdurdod yn gallu cymryd camau pellach.
- Os nad yw'r Awdurdod yn ystyried bod camau gorfodi ffurfiol yn fuddiol, bydd yr achwynydd yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y rhesymau pam nad yw'r Awdurdod yn cymryd unrhyw gamau pellach.
- Bydd yr achwynydd yn cael gwybod pan fydd yr achos wedi'i gau.

### Cwynion am y Gwasanaeth Gorfodi Cynllunio

Bydd yr Awdurdod yn cydnabod pob cwyn mewn perthynas â'r Gwasanaeth Gorfodi Cynllunio cyn pen 5 diwrnod gwaith. Bydd pob cwyn yn destun ymchwiliad llawn gan yr Awdurdod a bydd yr achwynydd yn cael ymateb ysgrifenedig cyn pen 20 diwrnod gwaith o gael y gŵyn.

Yn y lle cyntaf, dylid cyfeirio pob cwyn i'r Gwasanaeth Gorfodi Cynllunio at:

Y Cyfarwyddwr Cynllunio
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Cambrian Way
Aberhonddu
LD3 7HP

Os yw achwynydd yn anfodlon o hyd ar yr ymateb ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Cynllunio, bydd manylion yn cael eu rhoi i fynd ar drywydd y gŵyn ymhellach drwy System Gwyno Ffurfiol yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod bob amser yn ceisio datrys cwyn yn lleol ond os na fydd hyn yn bosibl bydd yr achwynydd yn cael gwybod sut mae mynd ar drywydd y mater ymhellach gyda'r Comisiynydd dros Weinyddu Lleol (yr Ombwdsmon).

## Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl mynediad cyffredinol i wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Awdurdod yn cadw llawer o wybodaeth gan gynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chyngor cyn ymgeisio, ceisiadau cynllunio ac apeliadau. Bydd y rhagdybiaeth bob amser o blaid datgelu gwybodaeth felly. Mae hyn yn wir am ei bod yn bwysig i'r Awdurdod hyrwyddo atebolrwydd a thryloywder yn y broses gynllunio ac i alluogi unigolion i ddeall barn a fynegwyd a'r rhesymau am wneud penderfyniadau.

Fodd bynnag, o ran cwynion gorfodi, bydd manylion yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol ac fe'u hesgusodir rhag eu datgelu o dan adran 30 o ran II o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Lle mae'r Awdurdod yn gwrthod

cais i ddatgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf, bydd eglurhad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu sy'n nodi'r eithriadau y mae'r Awdurdod yn dibynnu arnynt i atal yr wybodaeth a'r gweithdrefnau apelio perthnasol.

BRECON BEACONS NATIONAL PARK

## Gorfodi Gwasanaethau Cynllunio

## Blaenoriaethu Cwynion

Am fod cynifer o gwynion yn ein cyrraedd, mae pob achos yn cael ei gategoreiddio yn nhrefn blaenoriaeth Uchel, Ganolig ac Isel[1]. Mae hyn yn seiliedig ar ddifrifoldeb yr achos o dorri rheolaeth gynllunio.

Nid yw'r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr ond mae'n ganllaw i'r mathau o achosion sy'n cael eu categoreiddio ym mhob math o flaenoriaeth. Nodir y flaenoriaeth a roir i achos yn y ddau ddigid olaf a roir yn y cyfeirnod achos felly P1 am achosion blaenoriaeth uchel, P2 am flaenoriaeth ganolig a P3 am flaenoriaeth isel fel a ganlyn:-

**Uchel**

- Gwaith anawdurdodedig i Adeiladau Rhestredig
- Gwaith anawdurdodedig i Henebion Cofrestredig
- Gwaith anawdurdodedig mewn safleoedd o ddynodiadau statudol, h.y. ACA
- Gweithrediadau peirianneg anawdurdodedig ar raddfa fawr
- Gwaith/cwympo anawdurdodedig i goed sy'n destun Gorchmynion Diogelu Coed neu mewn Ardal Gadwraeth

Targed – cynnal ymweliad safle cychwynnol ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl cofrestru'r gŵyn.

**Canolig**

- Achosion difrifol o dorri amodau
- Gwaith adeiladu newydd ar raddfa ganolig
- Nifer sylweddol o achwynwyr gan awgrymu pwysigrwydd
- Diffyg cydymffurfio ag amodau cynsail
- Hysbysebion anghyfreithlon sy'n awgrymu niwed gweledol sylweddol neu niwed i ddiogelwch ar y priffyrdd

Targed – cynnal ymweliad safle cychwynnol cyn pen 5 diwrnod gwaith o gofrestru'r gŵyn.

**Isel**

- Materion Sifil
- Mân ddatblygiadau neu weithrediadau peirianneg neu rai ar raddfa fechan
- Honiadau o newid defnydd sylweddol – heb effeithio ar amwynder preswyl
- Datblygu newid defnydd sylweddol – heb fod yn breswyl.

Targed - cynnal ymweliad safle cychwynnol cyn pen 20 diwrnod gwaith o gofrestru'r gŵyn.

[1] Yn seiliedig ar system ddosbarthu Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW)

**NODIADAU**

Nid yw'r rhestr o flaenoriaethau yn ddatganiad terfynol o safiad cyfreithiol yr Awdurdod ar faterion gorfodi. Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i osod achos ym mha bynnag lefel o flaenoriaeth a ystyrir yn fuddiol ar y pryd, ac i newid y categori hwnnw ar unrhyw adeg.